

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

22 Chwefror 2018

Annwyl Mr Ramsay

### **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Ymhellach i'ch llythyr 30 Ionawr 2018, rwyf yn ysgrifennu i roi i'r Pwyllgor yr wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani mewn perthynas â System TG Arlwyo a Maeth i Gymru (NNCIS) a TG System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

### **System TG Arlwyo a Maeth i Gymru (NNCIS)**

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr 3 Ionawr 2018, mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ((NWSSP), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd yn gweithio ar y cyd i gaffael a gweithredu System TG Arlwyo a Maeth i Gymru.

Erbyn hyn mae Anthony Hayward, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Uned Genedlaethol ar Gomisiynu Cydweithredol, bellach wedi'i benodi'n Brif Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer y prosiect ac mae Ian Rose, o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr y Prosiect.

Mae'r cerrig milltir allweddol sy'n arwain at bennu manylion terfynol manyleb y system ym Medi 2018 fel a ganlyn.

- Ionawr – Chwefror 2018 – sefydlu llywodraethiant y prosiect a phenodi SRO
- Mawrth 2018 – manyleb i ymgynghorydd allanol ddatblygu manyleb y system yn cael ei chytuno gan Fwrdd y Prosiect
- Ebrill 2018 – penodi ymgynghorydd allanol a chynnal gweithdai gofynion defnyddwyr
- May 2018 – sefydlu ffyrdd o weithio/prosesau, cynnal asesiadau o'r effaith ariannol a thechnegol a chynnal asesiad o'r farchnad.
- Mehefin 2018 – rhannu'r canfyddiadau â'r byrddau iechyd i'w dilysu
- Gorffennaf 2018 – cyflwyno'r canfyddiadau i Fwrdd y Prosiect ar gyfer penderfyniad
- Awst 2018 – llwybr caffel yn cael ei gadarnhau ar sail canfyddiadau

Mae'r uchod yn adlewyrchu'r cynllun lefel uchel presennol. Caiff hwn ei adolygu yn rheolaidd wrth i gynnydd gael ei wneud, gyda chynlluniau manwl yn cael eu datblygu gam wrth gam, yn unol â Prince2.

Yn dilyn cyngor gan y tîm caffael, mae tîm y prosiect wedi dewis dros dro i ddilyn y weithdrefn deialog gystadleuol. Seilir y penderfyniad hwn ar gymhlethdod unrhyw ateb a gynigir a'r cyfle cyfyngedig i fabwysiadau system 'un dull sy'n addas i bawb' wrth gymryd y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, amrywiaeth prosesau presennol ar draws GIG Cymru a'r amrywiant posibl yng ngofynion defnyddwyr terfynol.

Mae'r amser a ganiateir ar gyfer y caffael yn gydnaws â defnyddio'r weithdrefn deialog gystadleuol. Gwneir penderfyniad terfynol ynghylch priodoldeb y weithdrefn hon yn Awst 2018.

### **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)**

Fel y gwyddoch, rhoddodd yr Adolygiad Gateway o WCCIS, a gomisiynwyd gan Uwch Berchnogion Cyfrifol y rhaglen, Asesiad Hyder Cyflawni lefel Oren, ac mae gwaith cynllunio wedi mynd rhagddo i sicrhau bod y prif gamau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon. Cydnabu'r adroddiad o'r adolygiad mai rhaglen gymhleth iawn sy'n torri tir newydd yw'r rhaglen hon. Mae'r rhaglen yn gofyn am gyfranogiad pob un o'r saith bwrdd iechyd a'r 22 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru ac fe nododd yr adroddiad y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud i gael cyrff yn fyw ar y system newydd (naw adeg yr adolygiad),

Roedd yr adroddiad yn cydnabod cymhlethdod a her rhaglen o'r fath, gan danlinellu'r materion allweddol a fyddai, o'u datblygu a'u rheoli'n dda, yn hwyluso llwyddiant wrth ddarparu'r rhaglen. Yn eu plith:

- Y gwahaniaethau diwylliannol rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd cymunedol yn ogystal â'u gwahanol fannau cychwyn ar gyfer TGCh;
- Yr her o reoli rhaglen sydd wedi'i hadeiladu ar gonsensws;
- Graddfa a chymhlethdod strwythurau llywodraethu presennol;
- Yr adnoddau cyfyngedig;
- Yr angen am eglurder ar lefel y rhaglen ar y cyfeiriad at y dyfodol ac ar y prosesau ar gyfer sicrwydd a phrosesau llywodraethu gwybodaeth;
- Materion swyddogaethol (y system newydd) sy'n deillio o gyflwyno'r system, a sut a phryd y maent yn cael eu rheoli;
- Cydnabod yr angen i newid y broses fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y dechnoleg a'r ymdrech a'r arweinyddiaeth y mae eu hangen i reoli'r broses newid honno.
- Yr angen am adnodd cyfathrebu penodedig.

Mae'n bwysig bod y tîm adolygu wedi penderfynu y gellid disgwyl materion fel hyn o raglen mor heriol â hyn, gan nodi bod modd eu datrys a bod gwaith yn mynd rhagddo eisoes i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cynnig barn gytbwys o ble y mae cynnydd wedi'i wneud a'r gwaith gofynnol at y dyfodol. Mae'n galonogol bod cymhlethdod y rhaglen a'r cynnydd hyd yn hyn wedi'u cydnabod a derbynnir yn llawn bod llawer i'w wneud o hyd i wireddu manteision y datblygiad hwn.

Mae'r SROs wedi derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad; maent yn cynnig llwybr clir a ddylai hwyluso cynnydd ac a ddylai gynyddu hyder yn y rhaglen uchelgeisiol hon. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu trin fel blaenoriaeth ac mae cynllun gweithredu yn ei le i sicrhau yr eir i'r afael â hwy erbyn diwedd Gwanwyn 2018. Mae gwaith ar y rhaglen yn mynd rhagddo eisoes, a hynny o dan gyfarwyddyd Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS.

Mae'r SROs wedi rhannu canfyddiadau'r adolygiad â nifer o uwch-randdeiliaid, gan gynnwys Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd GIG Cymru.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i chi.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**